Cip ar Ddata

# Archwilio patrymau risg digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru

**Awduron:** Ian Thomas, Samyuktha Babuganesh, and Peter Mackie

**Dyddiad:** Chwefror 2025

Yn y Mewnwelediad Data hwn, mae tîm Tai a Digartrefedd YDG Cymru yn archwilio patrymau risg digartrefedd ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Cynhaliwyd dadansoddiad gan ddefnyddio arolygon asesu sgrinio a gwblhawyd gan bobl ifanc (rhwng 11 a 16 oed) mewn ysgolion uwchradd a oedd yn cymryd rhan yn ymyrraeth Upstream Cymru. Mae'r ffynhonnell ddata hon yn cynnig cyfle digynsail i fesur graddfa'r risg o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru ac yn archwilio gwahanol batrymau o adrodd ar risg. Roedd y dadansoddiad hwn yn cwmpasu digartrefedd ymysg pobl ifanc a theuluoedd—digartrefedd ymhlith pobl ifanc yw pan nad yw pobl ifanc yng nghwmni rhiant/gwarcheidwad.

### Cefndir

Mae polisi ac arfer digartrefedd yn y DU yn symud fwyfwy tuag at atal, gyda dulliau 'i fyny'r afon' yn canolbwyntio ar nodi a chynorthwyo pobl agored i niwed cyn i argyfwng tai ddigwydd[1]. Un grŵp agored i niwed o'r fath yw pobl ifanc, ac amcangyfrifir bod 1 o bob 62 ohonynt wedi wynebu digartrefedd yn y DU yn 2023/24[2]. Yng Nghymru, mae Upstream Cymru yn enghraifft o ymyrraeth atal digartrefedd sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc oedran ysgol[3]. Mae'r ymyrraeth yn defnyddio asesiad sgrinio ar ffurf arolwg i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gyda chymorth yn cael ei ddarparu'n bennaf trwy gyfryngu i fynd i'r afael â gwrthdaro teuluol. Gan ddechrau yn 2020 yng Nghymru, mae'r model hwn o sgrinio pobl ifanc ac yna cymorth wedi'i dargedu, a elwir yn gyffredinol yn 'i fyny'r afon', wedi'i fabwysiadu yn Lloegr a'r Alban ers hynny—gan yr elusennau digartref ieuenctid Centrepoint a Rock Trust, yn y drefn honno.

## Yr hyn a wnaethom

Mae'r Mewnwelediad Data hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o arolygon asesu sgrinio dienw Upstream Cymru a gwblhawyd rhwng Medi 2020 ac Ionawr 2025. Gall disgyblion gwblhau nifer o arolygon asesu, y defnyddiwyd y cyntaf ohonynt yn y Mewnwelediad Data hwn. Cymerodd 12 ysgol uwchradd ar draws rhanbarth de Cymru ran yn Upstream Cymru.

Fel rhan o'r broses sgrinio, gofynnir i bobl ifanc am amrywiaeth o agweddau sy'n gysylltiedig â'r risg o fod yn ddigartref, gan gynnwys:

- Profiadau blaenorol o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc a theuluoedd
- Ffactorau sy'n gysylltiedig â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, fel gwrthdaro â rhieni, aros i ffwrdd o gartref, a theimladau ynghylch ble maen nhw'n byw ar y pryd
- Pryderon/gofidiau ynghylch cyfnodau digartrefedd yn y dyfodol

Yn gyfan gwbl, dadansoddwyd 11 cwestiwn/datganiad Likert yn ymwneud â risg digartrefedd—gweler yr Atodiad am y rhestr lawn. Defnyddiwyd technegau ystadegol (Dadansoddiad Cyfatebiaeth Lluosog ac yna Dadansoddiad Clwstwr) i brosesu'r data a nodi grwpiau neu glystyrau o bobl ifanc ag ymatebion

tebyg. Defnyddiwyd croesdablau o glwstwr yn ôl cwestiwn sgrinio i ddisgrifio pob clwstwr. Defnyddiwyd Gweddillion Safonedig wedi'u Haddasu, nad ydynt yn cael eu dangos yma, i asesu faint roedd y dosbarthiad data a welwyd mewn croesdablau yn wahanol i'r hyn a ddisgwylid pe bai newidynnau'n anghysylltiedig, wedi'u mynegi mewn unedau safonedig i helpu i nodi pa gelloedd yn y tablau oedd yn sefyll allan.

Dadansoddwyd 6,187 o asesiadau sgrinio (allan o 6,408 yn wreiddiol) ar ôl cael gwared ar achosion lle roedd data ar goll.

## Yr hyn a ganfuom

O ran mesurau uniongyrchol o ddigartrefedd, **roedd 2.4% o ddisgyblion wedi profi digartrefedd ymysg pobl ifanc**, gan ddod yn ddigartref ar un neu fwy o nosweithiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. **Adroddodd 6.0% o ddisgyblion eu bod nhw/eu teulu wedi profi digartrefedd ymysg teuluoedd**, gan aros gyda ffrindiau neu berthnasau oherwydd nad oedd ganddyn nhw lety.

**Nodwyd pum clwstwr**, yn amrywio o ran maint o 52% o'r sampl, i 2%. Roedd dau o'r clystyrau (Clwstwr 1 a 2) wedi cael profiadau blaenorol cyfyngedig o ddigartrefedd ac ond ychydig o arwyddion o risg neu bryderon ynghylch diogelwch. Roedd y tri chlwstwr sy'n weddill (Clwstwr 3, 4, a 5) yn dangos gwahanol batrymau o brofiadau digartrefedd ymysg pobl ifanc a theuluoedd a risgiau cysylltiedig.




Gellir gweld ymatebion i'r 11 cwestiwn/datganiad Likert yn ôl clwstwr yn yr Atodiad. Mae'r disgrifiadau canlynol yn crynhoi maint a phrif nodweddion pob clwstwr, ac yna rhai ystadegau allweddol.

**Adroddodd Clwstwr 1 (52% o'r sampl) lefelau uchel o hapusrwydd, diogelwch a sefydlogrwydd yn eu sefyllfa fyw, gyda gwrthdaro neu ansicrwydd tai lleiaf posibl.**

- Mae 95.9% yn cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n hapus lle maen nhw'n byw.
- Mae 96.9% yn cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- Mae 99.7% yn nodi nad ydynt erioed wedi profi digartrefedd ymysg pobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Yn gyffredinol, roedd Clwstwr 2 (27% o'r sampl) yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, er bod eu hymatebion yn llai cadarnhaol na Chlwstwr 1. Fe wnaethon nhw ddangos lefelau cymedrol o sefydlogrwydd tai a theuluol.**

- Mae 88.5% yn cytuno eu bod yn teimlo'n hapus lle maen nhw'n byw.
- Mae 84.0% yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- Mae 48.6% yn anghytuno â bod eisiau symud allan, ac mae 49.1% yn anghytuno â phrofi gwrthdaro â rhieni/gwarcheidwaid.

**Roedd gan Glwstwr 3 (15% o'r sampl) deimladau cymysg am eu sefyllfa byw, gyda lefelau cymedrol o anfodlonrwydd, gwrthdaro, a sefydlogrwydd tai.**

- Nid yw 38.4% yn cytuno nac yn anghytuno eu bod yn teimlo'n hapus lle maen nhw'n byw.
- Nid yw 39.6% yn cytuno nac yn anghytuno eu bod am symud allan o'r lle maen nhw'n byw, tra bod 27.5% yn cytuno â'r datganiad hwn.
- Nid yw 38.2% yn cytuno nac yn anghytuno eu bod yn cael llawer o wrthdaro gyda rhieni/gwarcheidwaid, gyda 30.6% yn cytuno â'r datganiad hwn.

**Adroddodd Clwstwr 4 (2% o'r sampl) lefelau uchel o anhapusrwydd a phryderon cynyddol ynghylch diogelwch lle roeddent yn byw ar y pryd, er o bosibl nad oeddent yn gysylltiedig â gwrthdaro.**

- Mae 88.3% yn anghytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n hapus lle maen nhw'n byw.
- Mae 46.2% yn anghytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw, gyda'r clwstwr hwn yn cyfrif am yr holl ddisgyblion a oedd erioed wedi nodi eu bod yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn.
- Nododd 60.7% eu bod naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno eu bod yn cael llawer o wrthdaro gyda'u rhieni.

**Roedd Clwstwr 5 (4% o'r sampl) wedi profi digartrefedd ac anawsterau teuluol yn y gorffennol, ynghyd â phryderon am y dyfodol, sy'n dynodi lefel uchel o fregusrwydd.**

- Adroddodd 31.5% eu bod wedi profi digartrefedd ymysg pobl ifanc a 36.6% eu bod wedi profi digartrefedd ymhlith teuluoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Cysgodd 54.9% i ffwrdd o gartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae 48.5% yn poeni y gallent redeg i ffwrdd neu gael eu gofyn i adael rywbryd yn y flwyddyn ganlynol.
- Mae 34.5% yn adrodd eu bod nhw/eu teulu ddim wedi gallu talu rhent na morgais oherwydd diffyg arian.
- Mae 69.3% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn cael gwrthdaro â'u rhieni/gwarcheidwaid.

## Pam mae'n bwysig

Mae ein canlyniadau'n dangos nad oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a aseswyd gan Upstream Cymru yn dangos unrhyw batrymau o risg mewn perthynas â digartrefedd ymysg pobl ifanc neu deuluoedd. Ymatebodd tua chwech o ddisgyblion o bob 100 a aseswyd mewn ffyrdd a fyddai'n peri pryder arbennig i ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd ymysg pobl ifanc (y rhai yng Nghlystyrau 4 a 5). Fodd bynnag, mae gwahaniaethau ym mhatrymau ymatebion ar draws y disgyblion hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yn awgrymu y gallai gwahanol fathau o ymyrraeth fod yn briodol.

Roedd un o'r clystyrau pryder, Clwstwr 5, yn cwmpasu disgyblion sy'n profi digartrefedd a lefelau uchel iawn o fregusrwydd, gan gynnwys gwrthdaro teuluol. Ar hyn o bryd mae Upstream Cymru yn cynnig cymorth cyfryngu teuluol, a fyddai'n addas i rai o'r bobl yn y clwstwr hwn. Fodd bynnag, mae cylch gwaith Upstream Cymru (ac Upstream yng ngwledydd eraill y DU) yn canolbwyntio'n bennaf ar atal digartrefedd ymysg pobl ifanc. Mae'r (risg) uwch o ddigartrefedd ymysg teuluoedd a welwyd yng Nghlwstwr 5 yn awgrymu y gellid defnyddio'r offeryn sgrinio Upstream hefyd i nodi a chefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd trwy ystod ehangach o gymorth.

Nodweddwyd yr ail glwstwr o bryder, Clwstwr 4, gan anhapusrwydd eithafol. Gan nad oedd ffynhonnell yr anhapusrwydd yn glir, ac nad oedd yn gysylltiedig yn gyfan gwbl â gwrthdaro, efallai na fydd ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gyfryngu teuluol yn ddefnyddiol gyda phobl ifanc yn y clwstwr hwn. Mae'r sefyllfa hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r asesiad sgrinio fel man cychwyn ar gyfer sgwrs gyda'r person ifanc i ddeall ei anghenion a nodi opsiynau cymorth priodol.

Dylid nodi bod y dadansoddiad hwn yn cyflwyno cipolwg ar brofiadau disgyblion pan gânt eu sgrinio gyntaf. Fodd bynnag, mae digartrefedd yn ffenomen ddynamig. Felly, gallai disgyblion yng Nghlwstwr 3, a ddangosodd rai arwyddion petrus o wrthdaro teuluol, symud i Glwstwr 5 os bydd amgylchiadau gartref yn dirywio. Byddai archwilio'r newid hwn dros amser o bosibl yn darparu mewnwelediadau pwysig pellach i lywio ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i atal digartrefedd.

## Cydnabyddiaeth

Gwnaed y cyhoeddiad hwn yn bosibl gyda chymorth Samyuktha Babuganesh, a ymunodd â'r tîm Tai a Digartrefedd yn YDG Cymru fel rhan o Gynllun Interniaeth Haf Gwyddor Data Poblogaeth (Prifysgol Abertawe).

Mae'r Mewnwelediad Data hwn wedi'i gynhyrchu gan dîm ymchwil Tai a Digartrefedd YDG Cymru. Mae'n rhoi cipolwg o'r ymchwil addysgiadol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn YDG Cymru ond ni fwriedir iddo roi darlun cyflawn o'r gwaith a wneir yn y maes hwn na rhaglen waith YDG Cymru. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y Cip ar Ddata hwn wedi'i adolygu gan gydweithwyr YDG Cymru sydd ag arbenigedd yn y meysydd thematig hyn a derbynnir ei fod yn gywir ar adeg cyhoeddi. Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn y Cip ar Ddata hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau sefydliadau partner YDG Cymru.

### Cyfeiriadau

1. Fitzpatrick S., Mackie P., Wood J. (2021) Advancing a Five-Stage Typology of Homelessness Prevention. International Journal on Homelessness. 1(1):79-97

2. Centrepoint (2025) Hidden in plain sight: Understanding youth homelessness in the UK. [Adroddiad]. London: Centrepoint

3. Cardiff University (2025) Upstream Cymru [Gwefan]. Ar-lein. Ar gael yn: https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/find-a-project/view/2500988-upstream-cymru [Cyrchwyd 20 Awst 2025]

# Atodiad

Cynhwyswyd yr 11 cwestiwn/datganiad Likert canlynol yn y dadansoddiad hwn:

- Rwy'n teimlo'n hapus lle rwy'n byw nawr.
- Rwy'n teimlo'n ddiogel yn y lle rwy'n byw nawr.
- Hoffwn i symud allan o'r lle rwy'n byw.
- Rwy'n cael llawer o wrthdaro gyda fy rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(waid).
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sawl gwaith gwahanol ydych chi wedi bod yn ddigartref am un noson neu fwy?
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a wnaethoch chi erioed gysgu i ffwrdd oddi wrth eich rhieni neu warcheidwaid oherwydd eich bod wedi cael eich taflu allan, wedi rhedeg i ffwrdd, neu ddim wedi teimlo'n ddiogel i aros?
- Ydych chi'n poeni y gallech chi redeg i ffwrdd neu gael eich gofyn i adael cartref rywbryd eleni?
- Sawl gwaith ydych chi wedi symud o un cyfeiriad i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- A oedd yna adeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pan nad oeddech chi neu'ch teulu yn gallu talu'r rhent na'r morgais oherwydd nad oedd gennych chi ddigon o arian?
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sawl gwaith ydych chi a'ch teulu wedi aros gyda ffrindiau neu berthnasau oherwydd nad oedd gennych chi le i aros?
- Ydych chi'n poeni na fydd gennych chi neu'ch teulu le i fyw rywbryd eleni?

*Tabl Atodol 1: Dadansoddiad canrannol o fewn pob clwstwr ar gyfer cwestiynau sgrinio digartrefedd ymysg pobl ifanc*

| | | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rwy'n teimlo'n hapus lle rwy'n byw nawr** | Cytuno'n gryf | 95.9 | 9.6 | 23.0 | 3.4 | 10.6 | 56.1 |
| | Cytuno | 3.8 | 88.5 | 32.7 | 2.8 | 11.1 | 31.4 |
| | Peidio â chytuno nac anghytuno | 0.2 | 1.8 | 38.4 | 3.4 | 50.6 | 8.3 |
| | Anghytuno | 0.1 | 0.2 | 5.7 | 2.1 | 23.4 | 1.9 |
| | Anghytuno'n gryf | 0.0 | 0.0 | 0.2 | 88.3 | 4.3 | 2.3 |
| **Rwy'n teimlo'n ddiogel yn y lle rwy'n byw nawr** | Cytuno'n gryf | 96.9 | 15.2 | 23.2 | 38.6 | 12.3 | 59.1 |
| | Cytuno | 2.6 | 84.0 | 49.9 | 6.9 | 22.6 | 32.7 |
| | Peidio â chytuno nac anghytuno | 0.3 | 0.7 | 24.4 | 4.1 | 47.2 | 5.9 |
| | Anghytuno | 0.2 | 0.1 | 2.5 | 4.1 | 17.9 | 1.3 |
| | Anghytuno'n gryf | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 46.2 | 0.0 | 1.1 |
| **Hoffwn i symud allan o'r lle rwy'n byw** | Anghytuno'n gryf | 56.3 | 5.7 | 7.2 | 38.6 | 5.1 | 32.8 |
| | Anghytuno | 26.2 | 48.6 | 16.6 | 16.6 | 7.7 | 29.9 |
| | Peidio â chytuno nac anghytuno | 10.5 | 31.4 | 39.6 | 10.3 | 28.1 | 21.2 |
| | Cytuno | 4.1 | 12.1 | 27.5 | 6.2 | 30.6 | 10.8 |
| | Cytuno'n gryf | 2.8 | 2.3 | 9.1 | 28.3 | 28.5 | 5.2 |
| **Rwy'n cael llawer o wrthdaro gyda fy rhiant(rhieni)/ gwarcheidwad(waid).** | Anghytuno'n gryf | 43.3 | 7.3 | 5.5 | 35.9 | 4.3 | 26.2 |
| | Anghytuno | 36.9 | 49.1 | 19.6 | 24.8 | 10.6 | 36.4 |
| | Peidio â chytuno nac anghytuno | 15.1 | 34.3 | 38.2 | 15.2 | 15.7 | 23.8 |
| | Cytuno | 3.2 | 8.1 | 30.6 | 8.3 | 37.0 | 10.0 |
| | Cytuno'n gryf | 1.6 | 1.2 | 6.0 | 15.9 | 32.3 | 3.6 |
| **Y llynedd, sawl gwaith y profwyd digartrefedd ymysg pobl ifanc?[a]** | Byth | 99.7 | 99.5 | 96.0 | 86.9 | 68.5 | 97.6 |
| | 1 neu fwy | 0.3 | 0.5 | 4.0 | 13.1 | 31.5 | 2.4 |
| **Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a wnaethoch chi erioed gysgu i ffwrdd?[b]** | Na | 98.7 | 97.8 | 86.5 | 90.3 | 45.1 | 94.4 |
| | Ydw | 1.3 | 2.2 | 13.5 | 9.7 | 54.9 | 5.6 |
| **Yn poeni y gallai redeg i ffwrdd/y gofynnir iddo/iddi adael rywbryd eleni?[c]** | Na | 97.7 | 93.6 | 56.3 | 82.8 | 24.3 | 87.3 |
| | Ddim yn gwybod | 1.9 | 6.1 | 33.4 | 10.3 | 27.2 | 8.9 |
| | Ydw | 0.4 | 0.3 | 10.2 | 6.9 | 48.5 | 3.8 |

a. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sawl gwaith gwahanol ydych chi wedi bod yn ddigartref am un noson neu fwy?
b. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a wnaethoch chi erioed gysgu i ffwrdd oddi wrth eich rhieni neu warcheidwaid oherwydd eich bod wedi cael eich taflu allan, wedi rhedeg i ffwrdd, neu ddim yn teimlo'n ddiogel i aros?
c. Ydych chi'n poeni y gallech chi redeg i ffwrdd neu gael eich gofyn i adael cartref rywbryd eleni?

*Tabl Atodol 2: Dadansoddiad canrannol o fewn pob clwstwr ar gyfer cwestiynau sgrinio digartrefedd ymysg teuluoedd*

| | | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sawl gwaith y newidiwyd cyfeiriad yn y flwyddyn ddiwethaf?[a]** | 0 | 84.8 | 77.2 | 64.8 | 66.2 | 50.2 | 78.0 |
| | 1 i 2 | 12.8 | 17.7 | 25.0 | 23.4 | 26.4 | 16.7 |
| | 3 neu fwy | 2.4 | 5.1 | 10.1 | 10.3 | 23.4 | 5.3 |
| **Y flwyddyn ddiwethaf, pryd naellid talu rhent na morgais?[b]** | Na | 81.7 | 67.3 | 39.1 | 64.1 | 28.5 | 69.0 |
| | Ddim yn gwybod | 16.7 | 30.0 | 48.0 | 28.3 | 37.0 | 26.1 |
| | Ydw | 1.6 | 2.7 | 12.9 | 7.6 | 34.5 | 5.0 |
| **Y flwyddyn ddiwethaf, faint o weithiau mae'r teulu wedi bod yn ddigartref?[c]** | 0 | 97.8 | 95.8 | 87.2 | 82.8 | 63.4 | 94.0 |
| | 1 neu fwy | 2.2 | 4.2 | 12.8 | 17.2 | 36.6 | 6.0 |
| **Pryderus efallai na fydd gennych chi/gan eich teulu le i fyw eleni?[d]** | Na | 95.5 | 89.4 | 57.7 | 84.1 | 41.3 | 85.9 |
| | Ddim yn gwybod | 3.6 | 10.0 | 35.8 | 10.3 | 34.5 | 11.5 |
| | Ydw | 0.8 | 0.7 | 6.5 | 5.5 | 24.3 | 2.6 |

a. Sawl gwaith ydych chi wedi symud o un cyfeiriad i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
b. A oedd yna adeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pan nad oeddech chi neu'ch teulu yn gallu talu'r rhent na'r morgais oherwydd nad oedd gennych chi ddigon o arian?
c. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sawl gwaith ydych chi a'ch teulu wedi aros gyda ffrindiau neu berthnasau oherwydd nad oedd gennych chi le i aros?
d. Ydych chi'n poeni na fydd gennych chi neu'ch teulu le i fyw rywbryd eleni?

**Cynhyrchwyd gan YDG Cymru**

Gwefan: YDGCymru.org
X: @ADR_Wales

Mae YDG Cymru yn uno arbenigwyr o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd gyda thimau arbenigol o fewn Lywodraeth Cymru. Mae'r technegau dadansoddi data sy'n torri tir newydd a'r rhagoriaeth ymchwil a ddatblygwyd, ynghyd â'r Gronfa Ddata SAIL fyd-enwog - sy'n brosesydd ardystiedig yn unol â Deddf yr Economi Ddigidol 2017 - yn golygu y gellir darparu ymchwil cadarn, diogel ac addysgiadol a all lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol yng Nghymru. Mae rhaglen waith YDG Cymru yn cyd-fynd â'r themâu blaenoriaeth a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn rhan o'r Cyngor Economaidd ac Ymchwil Cymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU) wedi'i gyllido gan YDG y DU (grant ES/W012227/1).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

**Partneriaid YDG Cymru**

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Swansea University / Prifysgol Abertawe — Medical School / Ysgol Feddygaeth

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

SAIL DATABANK

WISERD — Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru / Wales Institute of Social and Economic Research and Data

ADR UK — Data-driven change

UKRI — Economic and Social Research Council